



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig
The Rural Development Sub-committee**

**Dydd Llun, 20 Hydref 2008
Monday, 20 October 2008**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 4 Ystyried Cynigion Cyllidebol 2008-09
The Consideration of Budgetary Proposals 2008-09

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y pwyllgor. Yn ogystal,
cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee.
In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Mick Bates	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Alun Davies	Llafur (Cadeirydd yr Is-bwyllgor) Labour (Sub-committee Chair)
Rhodri Glyn Thomas	Plaid Cymru The Party of Wales
Brynle Williams	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Huw Brodie	Cyfarwyddwr, yr Adran Materion Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru Director, the Department for Rural Affairs, Welsh Assembly Government
Huw Davies	Pennaeth Uned Fusnes, yr Adran Materion Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru Head of Business Unit, the Department for Rural Affairs, Welsh Assembly Government
Elin Jones	Aelod Cynulliad, Plaid Cymru (y Gweinidog dros Faterion Gwledig) Assembly Member, The Party of Wales (the Minister for Rural Affairs)
Rory O'Sullivan	Pennaeth Is-adran Polisi Cefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru Head of Countryside Policy Division, Welsh Assembly Government

Swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn bresennol
Assembly Parliamentary Service officials in attendance

Claire Morris	Clerc Clerk
Meriel Singleton	Dirprwy Glerc Deputy Clerk

Dechreuodd y cyfarfod am 4.31 p.m.
The meeting began at 4.31 p.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **Alun Davies:** Galwaf y cyfarfod hwn o'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i drefn. Pwrpas y cyfarfod hwn yw trafod ei chyllideb gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig. **Alun Davies:** I call this meeting of the Rural Development Sub-committee to order. The purpose of this meeting is to discuss her budget with the Minister for Rural Affairs.

[2] Yr ydym yn falch eich bod yn gallu bod gyda ni heddiw, Weinidog. Gobeithiaf eich bod yn teimlo'n well ar ôl yr wythnos **We are pleased that you are able to be with us today, Minister. I hope that you are feeling better after your illness of last week. We are**

diwethaf. Yr ydym yn hynod ddiolchgar am yr amser yr ydych yn ei dreulio gyda ni y prynhawn yma. Ni wnaf y datganiadau arferol, gan fy mod eisiau symud yn syth at y sesiwn graffu.

extremely grateful for the time that you are to spend with us this afternoon. I will not go through the usual announcements, as I would like to move immediately to the scrutiny session.

4.32 p.m.

Ystyried Cynigion Cyllidebol 2008-09 The Consideration of Budgetary Proposals 2008-09

[3] **Alun Davies:** A allwch gyflwyno eich hun a'ch swyddogion ar gyfer y Cofnod, Weinidog? A allwch chi wedyn sôn am y rhannau o'r gyllideb y credwch bod angen inni ganolbwyntio arnynt? Symudwn at gwestiynau gan Aelodau wedyn.

Alun Davies: Will you introduce yourself and your officials for the Record, Minister, before going through the parts of the budget on which you believe we need to concentrate? We will then progress to Members' questions.

[4] **Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Diolch, Gadeirydd. Ymddiheuraf am yr anghyfleustra i'r pwyllgor fy mod wedi methu â mynychu cyfarfod dydd Llun diwethaf.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): Thank you, Chair. I apologise for the inconvenience caused to the committee as I was unable to attend last Monday's meeting.

[5] Diolch am y cyfle i gyflwyno'r gyllideb am y flwyddyn nesaf, sydd o'ch blaenau. Fel y gwelwch, nid yw'n gyllideb sydd wedi newid yn sylweddol o'r hyn yr oeddwn wedi ei ragamcan y llynedd. Mae'r gyllideb ar gyfer fy mhortffolio i yn un tair neu bedair blynedd. Yr oedd yr ymrwymadau ar gyfer 'Cymru'n Un', felly, wedi cael eu hariannu o fewn yr amcanion tair blynedd o'r llynedd, ac felly nid oes llawer o newid yng nghyllideb eleni. Y newid penodol—sy'n newid cyfrifyddol yn fwy na dim—yw yr ychwanegiad o £2 filiwn ar gyfer y Comisiwn Coedwigaeth.

Thank you for the opportunity to present next year's budget, which is before you. As you see, it is not a budget that has changed significantly from what I had predicted last year. The budget for my portfolio is a three or four year budget. Therefore, the commitments made in 'One Wales' had been funded within the three-year objectives from last year, so there are not many changes in this year's budget. The specific change—which is an accounting change more than anything—is the addition of £2 million for the Forestry Commission.

[6] Efallai mai'r newid mwyaf sylweddol yw'r newid o ran sut mae'r gyllideb wedi ei chyflwyno. Mae'n weddol gymhleth, felly efallai y byddwch eisiau i Huw Davies egluro hynny. Gyda llaw, gyda mi heddiw mae Huw Davies, pennaeth yr uned fusnes yn fy adran i, a Huw Brodie, Cyfarwyddwr yr Adran Materion Gwledig.

Perhaps the most significant change is the change in how the budget has been presented. It is quite complex, so you may want Huw Davies to explain that. By the way, with me today are Huw Davies, the head of the business unit in my department, and Huw Brodie, the Director of the Department for Rural Affairs.

[7] Mae'r gyllideb wedi'i diwygio o ran ei chyflwyniad—nid er mwyn cymhlethu aelodau'r pwyllgor, na minnau fel Gweinidog. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol bod y gyllideb yn y gorffennol wedi bod yn eithaf cymhleth o ran ei

The budget has been amended in relation to its presentation—not to confuse committee members, or me as Minister. However, I am aware that the budget in the past has been quite complex in its presentation; it is made even more complex as the rural development

chyflwyniad; mae'n cael ei chymhlethu yn fwy na dim oherwydd nad yw'r cynllun datblygu gwledig yn cael ei gyfrif fel eitem cyfan gwbl ar wahân. Dyna un o'r prif resymau, felly, dros osod categorïau newydd, a gosod y cynllun datblygu gwledig ar wahân. Fodd bynnag, o fod wedi newid hyn, mae nifer o newidiadau trefniadol i'r gyllideb hon.

[8] Hoffwn wneud dau bwynt ar y gyllideb, sydd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at gyllideb eleni, sef y ddau bwysau penodol ar fy nghyllideb eleni, ac ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Ni fydd y cyntaf yn sioc i chi, sef iawndal ar gyfer TB. Byddwch yn ymwybodol fod y gwariant ar hynny yn £16 miliwn y llynedd. Nid ydym yn rhagweld unrhyw leihad ar gyfer eleni. Mae cyllideb o £12 miliwn. Bydd yn rhaid i mi drafod gyda'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â sut y gallwn ariannu'r gwahaniaeth yn y flwyddyn ariannol hon a'r flwyddyn ariannol nesaf.

[9] Er y bydd rhai ohonoch yn ymwybodol o hyn yn barod, hoffwn hefyd dynnu eich sylw at y ffaith bod y cynllun organig wedi bod yn hynod o lwyddiannus mewn un ffordd eleni; cafwyd nifer sylweddol yn fwy o geisiadau ar gyfer troi'n organig—llawer yn fwy na'r gyllideb sydd gennym ar gyfer y cynllun hwnnw. Felly, bydd yn rhaid i mi ddiwygio'r gyllideb ar gyfer echel 2, cynlluniau megis Tir Cynnal a Tir Gofal, i gwrdd â'r gofyn ar gyfer cyllid ychwanegol ar gyfer y cynllun organig. Un o anfanteision llwyddiant yw bod yn rhaid ichi ei ariannu. Yr oeddwn wedi gobeithio y byddwn mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad i'r pwyllgor, ond, oherwydd fy salwch dros y pythefnos diwethaf, ni chefais gyfle nes y bore yma i gwrdd â swyddogion i drafod hynny yn fanylach. Gobeithiaf wneud datganiad ar hynny fore Mercher. Efallai y bydd yn bosibl i Aelodau graffu ar y penderfyniad hwnnw yn ystod fy sesiwn cwestiynau brynhawn Mercher. Mae'n effeithio nid yn unig ar gyllideb eleni ond y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd.

[10] **Alun Davies:** Diolch yn fawr. Mae'r gyllideb wedi newid ac yr ydym wedi cael rhywfaint o anhawster yn deall beth sydd wedi digwydd o flwyddyn i flwyddyn. Wedi

plan is not included as an entirely separate item. That is one of the main reasons, therefore, for these new categorisations, and for placing the rural development plan in a separate section. However, having made this change, there are several procedural changes to this budget.

I would like to make two points on the budget, which also includes reference to this year's budget, namely the two specific pressures on my budget for this year, which will also have an impact next year. The first will be of no surprise to you, namely TB compensation. You will be aware that £16 million was spent on that last year. We do not foresee any reduction this year. The budget is £12 million. Therefore, I will have to speak to the Minister for Finance and Public Service Delivery with regard to how we can fund the difference in this financial year and the next.

Although some of you will already be aware of this, I would also like to draw your attention to the fact that the organic scheme has been extremely successful in one way this year; there has been a considerable increase in the number of applications for organic conversion—considerably more than the budget that we have for that scheme. Therefore, I will need to revise the budget for axis 2, schemes such as Tir Cynnal and Tir Gofal, to meet the demand for additional finance for the organic scheme. One of the downsides of success is that you have to fund it. I had hoped that I would be in a position to make an announcement to the committee, but, due to my illness over the last fortnight, I did not have an opportunity until this morning to meet officials to discuss this in more depth. I hope to make an announcement on this on Wednesday morning. Perhaps it will be possible for Members to scrutinise that decision during my question session on Wednesday afternoon. It affects not only this year's budget but also the budget for next year.

Alun Davies: Thank you. The budget has changed and we have had some difficulty in understanding what has happened from year to year. Having said that, the budget for this

dweud hynny, mae'r gyllideb ar gyfer eleni yn glir ac yn ddealladwy, ac yr ydym yn hynod ddiolchgar am hynny. Beth yw eich amcanion polisi ar gyfer y flwyddyn nesaf?

[11] **Elin Jones:** Mae'r amcanion polisi o fewn cyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru'n Un—y blaenoriaethau hynny sydd yn ymwneud â fy adran i. Mae cyfeiriad penodol at waredu TB; mae cynllun sylweddol iawn gan y Llywodraeth. Fel y gwelwch o'r gyllideb sydd o'ch blaenau, mae cyllid sylweddol dros y tair blynedd—cyfanswm o £27.7 miliwn—wedi ei glustnodi ar gyfer gwaredu TB.

[12] Y blaenoriaethau eraill yw edrych ar weithredu'r cynllun datblygu gwledig yn ei gyfanrwydd. Oherwydd penderfyniad ar lefel Comisiwn Ewrop, nid oedd y cynllun hwnnw yn llwyr weithredol nes yn gynnar yn y flwyddyn galendr hon. Felly, mae rhywfaint o waith i'w wneud i ddal i fyny, a bydd hwn felly yn flaenoriaeth o ran polisi ac o ran gwario arian. O fewn y cyd-destun hwnnw, mae'r adolygiad o echel 2 a'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, wrth gwrs.

[13] Yn olaf, mae'r cynllun i roi hwb i bobl ifanc i gael mynediad i'r diwydiant amaethyddol, er nad oes cyllideb benodol ar gyfer hynny i'r flwyddyn nesaf; bydd y gyllideb honno yn dod i rym yn 2010. Bydd y gwaith paratoadol o weithio gyda phobl ifanc, datblygu cynllun busnes, hyfforddiant, ac yn y blaen, yn gallu gweithio o dan yr ymbarél Cyswllt Ffermio, gan baratoi ar gyfer y buddsoddiad yn 2010. Felly, yn gryno, cwrdd ag anghenion ac addewidion 'Cymru'n Un' a gweithredu ar hynny yw'r flaenoriaeth.

[14] **Brynle Williams:** Yr wyf yn falch o'ch gweld yn ôl, Weinidog.

[15] Why have the new budget expenditure lines for the companion animal welfare scheme and the cost-sharing responsibility not been retained with animal disease control and welfare of the SPA?

4.40 p.m.

[16] **Mr Brodie:** There is no particular significance; it has just been split out for greater clarity over where those elements of funding are, because they are not directly related to disease control.

year is clear and understandable, and we are extremely grateful for that. What are your policy objectives for the next year?

Elin Jones: The policy objectives are in the context of the priorities of the One Wales Government—the priorities that relate to my department. There is a specific reference to eradicating TB; the Government has proposed a considerable scheme. As you will see from the budget before you, considerable funding over three years—a total of £27.7 million—has been earmarked for the purpose of eradicating TB.

The other priorities are to look at putting into effect the rural development plan in its entirety. As a result of a decision at the European Commission level, that scheme was not entirely operational until early in this calendar year. Therefore, there is some catch-up work to be done, and that will be a policy and spending priority. Within that context, the revision of axis 2 and the agri-environment schemes is also happening at the moment, of course.

Finally, there is the scheme to encourage young entrants to the agriculture industry, although there is no specific budget for that for the next year; the budget for that does not kick in until 2010. The preparatory work, which involves working with young people, developing a business plan, training, and so on, can work under the umbrella of Farming Connect, in preparation for the investment in 2010. Therefore, in summary, the priority is fulfilling the needs and promises of 'One Wales' and acting upon those.

Brynle Williams: I am pleased to see you back, Minister.

[17] **Brynle Williams:** I am curious about the fact that £1 million has appeared in the budget. There is no breakdown of where it has come from or how it will be used. There is just the reference to £1 million for companion animals.

[18] **Mr Brodie:** There is no change in the sum of money allocated for companion animals this year from the budget that was set last year. It is simply the arrangement that was put in place last year for providing funding, particularly to local authorities to enable them to recognise their extra responsibilities under the new legislation.

[19] **Brynle Williams:** Thank you. My other question is on TB.

[20] **Alun Davies:** I will stop you there, Brynle, because Mick wants to come in before you move on to TB.

[21] **Mick Bates:** Given that you just mentioned the word ‘legislation’, are there any financial implications to your desire to have this legislation under the Welsh red meat industry LCO?

[22] **Elin Jones:** No, not that I recall.

[23] **Mick Bates:** So, there are no financial implications at all.

[24] **Elin Jones:** Not to the Welsh red meat industry LCO. It is primarily an administrative legislative change in the light of having Hybu Cig Cymru as an organisation that is not directly within the Assembly Government.

[25] **Mick Bates:** I just wanted to clarify that before we went on to TB.

[26] **Brynle Williams:** On TB, could you outline your expenditure on the eradication scheme during the current financial year?

[27] **Elin Jones:** The TB eradication budget for this financial year is £6 million. The bulk of that funding is to be used on TB health checks, which we know started in October 2008—that is the extra testing of cattle in areas where they would not have been tested within one calendar year. So, the majority of the funding is to meet the TB health check and the related compensation payments from the TB health check. The compensation payments that relate to non-foreseen testing come from the TB eradication programme. The other compensation arising from the testing that would have happened even without a TB eradication programme and the health check is met from the other budget line, on TB slaughter payments.

[28] **Alun Davies:** Pa fath o effaith a gaiff y costau ychwanegol hyn ar y rhaglen yn ei gyfanrwydd?
Alun Davies: What impact will these additional costs have on the programme in its entirety?

[29] **Elin Jones:** Y costau ychwanegol mewn taliadau iawndal?
Elin Jones: The additional costs in compensation payments?

[30] **Alun Davies:** Ie.
Alun Davies: Yes.

[31] **Elin Jones:** Fel y llynedd, bydd y Gweinidog dros gyllid yn disgwyl i mi ddod o hyd i'r arian hwnnw o fewn fy nghyllideb i ddechrau, felly rhaid i mi edrych ar danwariant o fewn fy nghyllideb. Os yw'r
Elin Jones: As was the case last year, the Minister for finance will expect me to find that additional funding within my own budget initially, therefore I will have to look at underspend within my budget. If the

iawndal yn fwy na'r hyn y gallaf ei fforddio o fewn fy nghyllideb, rhaid i mi gael trafodaeth hyd yn oed mwy dyrys gyda'r Gweinidog dros gyllid ar sut y mae darganfod yr arian hwnnw o'r tu allan i fy nghyllideb.

[32] **Alun Davies:** Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd? A oes modd i chi ariannu'r costau ychwanegol o'ch cyllideb?

[33] **Elin Jones:** Fel y dywedais yn gynharach, mae dau o bwysau penodol ar y gyllideb eleni. Iawndal ar gyfer TB yw un ohonynt, sydd yn debygol o fod tua £16 miliwn neu fwy. Felly, bydd yn sylweddol yn fwy na'r arian a osodwyd yn y gyllideb ar ei gyfer. Hefyd, mae gennyf bwysau ychwanegol ynghylch y galw sylweddol am y cynllun organig.

[34] Os caf egluro, mae rheolaeth y cynllun organig, fel y cynllun iawndal TB, i bob pwrpas y tu allan i'n rheolaeth ariannol gan fod y ddau gynllun yn cael eu harwain gan alw. Er nad yw'r cynllun iawndal TB yn 'gynllun' yng ngwir ystyr y gair, mae'n gyfrifoldeb cyfreithiol ar y Llywodraeth i dalu am unrhyw anifail sy'n cael ei gymryd o dan orfodaeth oherwydd TB. O dan y cynllun organig fel y mae wedi'i strwythuro ar hyn o bryd, os yw rhywun yn trosi'n organig ac yn gwneud datganiad ei fod wedi gwneud hynny ar ei ffurflen cais sengl flynyddol ym mis Mai, mae'n gyfrifoldeb cyfreithiol arnom i'w ariannu ar gyfer y trosi hwnnw.

[35] **Rhodri Glyn Thomas:** Ynghylch nid yn unig yr iawndal, ond yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r diciâu, a ydyw'r arian hwnnw i gyd yn dod o gyllideb y Gweinidog yn y Cynulliad neu a oes rhywfaint o arian DEFRA yn cael ei ychwanegu at y swm hwnnw? A oes modd i unrhyw un esbonio pwy sy'n talu beth, fel ein bod yn glir?

[36] **Elin Jones:** Dechreuaf i ac wedyn gall rhywun arall fy helpu. Mae llawer o'r gwaith o brofi ar gyfer TB yn cael ei wneud gan Iechyd Anifeiliaid—yr hen Wasanaeth Milfeddygol Gwladol—sy'n cael ei ariannu gan DEFRA. Nid yw hynny wedi'i ddatganoli. Felly, mae'r gwaith profi arferol sy'n digwydd ar ffermydd yn sgil polisïau Iechyd Anifeiliaid yn cael ei ariannu gan DEFRA, i bob pwrpas. Mae'r gwaith hwnnw

compensation exceeds what I can afford from within my budget, then I will have to have an even more intense discussion with the Minister for finance on where we will find that money outside of my budget.

Alun Davies: What is the current situation? Can you fund the additional costs from your budget?

Elin Jones: As I mentioned earlier, I have two particular pressures on this year's budget. One is compensation for TB, which is likely to be around £16 million or more. Therefore, it will be significantly more than the funding allocated for it in the budget. I also have the additional pressure of the significant demand for the organic scheme.

If I may explain, the management of the organic scheme and the TB compensation scheme is, to all extents and purposes, outwith our financial control because both schemes are demand led. Although the TB compensation scheme is not a 'scheme' in the true sense of the word, the Government has a legal responsibility to pay for any animal forcibly removed as a result of TB. Under the organic scheme as it is structured at the moment, if anyone converts to organic farming and declares that that has been done on the annual single application form in May, we have a legal responsibility to fund that conversion.

Rhodri Glyn Thomas: With regards to not only the compensation, but all of the costs related to TB, does all of that money come from the budget of the Minister in the Assembly or is some DEFRA money added to that sum? Could someone explain who pays for what, so that we are clear?

Elin Jones: I will begin and then someone else can help me. Much of the TB testing is done by Animal Health—the former State Veterinary Service—which is funded by DEFRA. That has not been devolved. Therefore, the regular testing work that takes place on farms as a result of Animal Health's policies is funded by DEFRA to all extents and purposes. That work is separate to the additional work that we are doing under our

ar wahân i'r gwaith ychwanegol yr ydym yn ei wneud o dan ein rhaglen gwaredu TB. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod cydweithio, wrth gwrs, ond mae'r gwaith ychwanegol newydd yn cael ei ariannu gennym. Os wyf yn cofio'n iawn, mae rhyw fath o frasamcan mai tua £10 miliwn yw gwerth gwaith Iechyd Anifeiliaid ar TB yng Nghymru.

[37] **Brynle Williams:** Yn fyr iawn, Weinidog, yr ydym i gyd yn sylweddoli pa mor bwysig ydyw i fynd i'r afael â diciâu. A ydych yn meddwl bod digon o ragwelediad yn y gyllideb? Os ydym yn bwriadu profi pob buches yng Nghymru, byddwn yn sicr yn dod o hyd i fwy o achosion yn y flwyddyn gyntaf. A ydych yn hapus? Yr wyf wedi clywed yr hyn yr ydych wedi'i ddweud ac yr wyf yn ceisio bod yn gefnogol, ond yr ydym wedi cymryd cam mawr ac yr wyf am wneud yn siŵr bod yr arian yno er mwyn i ni barhau.

[38] **Elin Jones:** Yr wyf wedi dweud bod yn rhaid i bawb baratoi eu hunain ar gyfer mwy o wartheg yn profi'n bositif ar gyfer TB yn y tymor byr, yn ystod y flwyddyn gyntaf pan fyddwn yn gwneud yr archwiliad iechyd TB. Bydd goblygiadau ariannol inni yn sgîl hynny, a dyna pam fydd yr arian i dalu iawndal yn dod o'r gyllideb ar gyfer gwaredu TB, a'r arian ar gyfer y gwaith arferol o brofi ac o dalu iawndal yn dod allan o'r gyllideb arall o £12 miliwn sydd o'ch blaen. Ni fedraf ddweud beth fydd y canlyniad a dyna sy'n rhwystredig. Nid wyf yn cofio'r ffigur ar gyfer y nifer o wartheg neu fuchesi ychwanegol a fydd yn cael eu profi a ni fedraf ddweud, wrth gwrs, faint o'r rheini fydd yn profi'n bositif ar gyfer TB, felly mae'n rhaid i ni wneud amcangyfrifon ar hyn.

[39] **Mick Bates:** I am mindful of the answer that you have just given to Brynle, Minister; however, in the comparable quarter last year, there was a 59 per cent increase in compensation payments and the £11.7 million that you have in the budget is flatlined through for the three years, so it does not appear that there is a lot of flexibility. If, as Brynle has just intimated, testing throughout Wales will throw up more animals with TB and therefore more compensation will be required, that leads to massive pressures. The removal of reactors from the farms alone is a massive pressure that is not currently being addressed. Do you have any contingency funding to meet those costs? Let us say that in the next year—the first year for which testing is carried out—there will be an increase in compensation. Is there any contingency to meet that demand not just for the compensation payments, but all the other actions that go with it? I know that some areas are DEFRA responsibilities, such as providing enough veterinarians. However, I am deeply concerned about the apparent lack of flexibility in the budget.

TB eradication programme. We must ensure that there is co-operation, of course, but the new additional work is being funded by us. If I remember rightly, there is some sort of estimate that Animal Health's work on TB in Wales is worth about £10 million.

Brynle Williams: Very briefly, Minister, we all realise how important it is to get to grips with TB. Do you think that there is enough of a forecast in the budget? If we intend to test every herd in Wales, we will certainly find more cases in the first year. Are you content? I have heard what you have said and I am trying to be supportive, but we have taken a big step and I want to ensure that the money is there for us to continue.

Elin Jones: I have said that everyone will have to prepare themselves for more cows testing positive for TB in the short term, during the first year in which we will undertake the TB health check. That will have financial implications and that is why the money to pay for compensation will come from the budget for the eradication of TB, and the money for the regular testing work and compensation payments will come from the other budget of £12 million that is before you. I cannot say what the outcome will be and that is frustrating. I do not remember the figure for the number of additional cows or herds that will be tested and, of course, I cannot say how many of them will test positive for TB, so we have to make estimates on this.

4.50 p.m.

[40] **Elin Jones:** As you say, there are all kinds of costs associated with increasing testing and possibly removing infected animals. For example, haulage costs have increased quite considerably over the last year to 18 months because of the increase in petrol and diesel prices. The department is currently looking at how to make savings on haulage by changing the way that it is organised.

[41] On your more general point, I reiterate that the cost of compensation resulting from the TB health check will primarily be met by the TB eradication programme budget for new testing. On the budget line for TB slaughter payments, last year, the budget was £12 million, and we ended up paying £16 million, so there were discussions with the Minister for Finance and Public Service Delivery as to how that was funded. There has not been an uplift of the budget, but we have an understanding with the Minister for finance that there is a particular pressure on this budget, given that it is quite small and inflexible—especially when you leave aside the money for the rural development plan, which cannot be touched.

[42] So, I have little flexibility to find an additional £4 million or £8 million—or whatever it turns out to be. I therefore have that understanding that I can discuss TB compensation with the Minister for finance. That is not to prejudge the outcome of that discussion, but it is a pressure that is recognised in this budget, and it is outside the control of any budgetary process, because it is demand-led.

[43] **Mick Bates:** I am partly reassured by your response and that of the Minister for finance last week in the Chamber when I asked the same question. As you have just confirmed, he said that he would revisit the budget if there was a problem with compensation payments.

[44] Moving on to another aspect of the budget, gamma interferon testing is not currently widespread, and I believe that the funding for that test comes from DEFRA. Again, there is this question of flexibility and contingency, because experience has shown, in some parts of the country where extensive testing for TB takes place, that farmers demand the use of the gamma interferon test. There is currently limited flexibility, but what is the budget for gamma interferon testing, and do you have any plans to ask for more funding for it? It seems to me that more farmers will want to use it, because it is much quicker, as you know.

[45] **Elin Jones:** The TB health check testing is a skin test rather than a gamma interferon test. In relation to the Animal Health testing by DEFRA—that is, the routine testing—Animal Health follows its own policy on whether a skin test or gamma interferon testing is appropriate. Decisions on that are taken in line with Animal Health policy on testing, and it is not an issue of budgetary control.

[46] **Mick Bates:** Could I just confirm that DEFRA pays for the gamma interferon testing that takes place in Wales?

[47] **Elin Jones:** I would not want to state that that is the case categorically. However, I am 90 per cent certain that all the testing undertaken by Animal Health in the yearly, two-yearly or four-yearly checks is paid for by DEFRA.

[48] **Mick Bates:** Yes, but that is the skin test.

[49] **Mr Brodie:** We have the option, through our own dedicated TB eradication budget, to increase use of the gamma interferon test. We could use that budget to help to fund that.

[50] **Elin Jones:** Yes, but that would have to be in line with the decision making on appropriate testing. It is not about which budget pays, or which budget is available, but about the appropriate test to use in particular circumstances.

[51] **Alun Davies:** Trown yn awr at y pwnc nesaf, sef y cynllun datblygu gwledig. **Alun Davies:** We now turn to the next subject, which is the rural development plan.

[52] **Rhodri Glyn Thomas:** Mae'r gyllideb yn hawdd ei dilyn yn yr adran arbennig hon, yn wahanol i lawer o adrannau eraill, ond un elfen ohoni nad yw'n glir ar hyn o bryd yw'r cynllun datblygu gwledig, a hynny am nifer o resymau. Fel y dywedodd y Gweinidog, yr oedd llawer o gynlluniau yn hwyr iawn yn dechrau oherwydd yr oedi yng Nghomisiwn Ewrop. Mae'r Gweinidog eisoes wedi dweud nad yw'n gallu nodi ei blaenoriaethau yn benodol ar hyn o bryd am ei bod yn gorfod edrych ar y cynllun organig a goblygiadau hwnnw i gynlluniau eraill. **Rhodri Glyn Thomas:** The budget is easy to follow in this particular section, unlike many other sections, but one element of it that is not clear at the moment is that which deals with the rural development plan, and that is for several reasons. As the Minister said, many of the schemes were late commencing because of the delay at the European Commission. The Minister has already said that she is unable to set her specific priorities currently as she needs to look at the organic scheme and at its implications for other schemes.

[53] Hoffwn ofyn ambell gwestiwn cyffredinol am y gronfa hon. Yn gyntaf, beth yw'r sefyllfa o ran llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer Ewrop ac ar gyfer y Deyrnas Unedig? Mewn blynyddoedd blaenorol, buom yn sôn am y ffaith bod ffermwyr ar eu colled oherwydd y gyfradd gyfnewid o'r ewro i'r bunt, a dyna oedd un o'r dadleuon cryfaf o blaid mynd i mewn i'r system ariannol Ewropeaidd unedol. Erbyn hyn, ni allwn ddweud hynny, gan fod y bunt yn wan o'i chymharu â'r ewro. Beth yw goblygiadau'r sefyllfa bresennol? A ydym yn sôn am arian ychwanegol sylweddol yn y gronfa oherwydd hynny? I want to ask a couple of general questions about this funding. First, what is the situation with regard to the budget expenditure line for Europe and for the UK? In previous years, we have touched on the fact that farmers are losing out because of the exchange rate from the euro to sterling, which was one of the strongest arguments in favour of entering into European monetary union. Times have changed and we could not say the same now, because the pound is weak against the euro. What are the implications of the current situation? Are we talking about significant sums of additional money in the fund as a consequence?

[54] **Elin Jones:** Dechreuaf ateb y cwestiwn hwnnw, a chaiff Rory wedyn fanylu ar sefyllfa'r gyfradd gyfnewid ac fel mae'n effeithio ar daliadau i ffermwyr a thaliadau i'r cynllun datblygu gwledig, sy'n gymhlethach byth. **Elin Jones:** I will start to answer that question, and Rory can then explain in more detail the situation with the exchange rate and how it affects payments to farmers and payments to the rural development plan, which is even more complicated.

[55] Gwyddom fod y gyfradd gyfnewid ar gyfer taliadau sengl wedi ei phennu ychydig wythnosau yn ôl, ac mae'n golygu y bydd y taliadau sengl i ffermwyr Cymru tua 10 y cant yn fwy na'r hyn y byddent fel arall. Dyna'n hamcangyfrif ar sail y gyfradd gyfnewid. We know that the exchange rate for single payments was set several weeks ago, and that it means that single payments to Wales's farmers will be about 10 per cent more than they would otherwise have been. That is our estimate, based on the exchange rate.

[56] O ran y cynllun datblygu gwledig, nid yw mor rhwydd oherwydd sut mae'n gweithio. Nid yw'n digwydd ar un pwynt With regard to the rural development plan, It is not so easy because of how it works. It is not set at a specific point within the financial

mewn blwyddyn ariannol; mae'r gwario yn y cynllun yn digwydd dros gyfnod o hyd at dair blynedd, ac N+2, ac felly, mae'r gyfradd gyfnewid o ddiddordeb pan fydd yr arian yn cael ei dynnu i lawr. Mae'r cynllun datblygu gwledig wedi'i gynllunio ar lefel yr ewro, ac felly ar y lefel honno y mae modiwlleiddio, er enghraifft yn gweithredu hefyd.

year; expenditure under the plan takes place over a period of up to three years, and N+2, which means that the exchange rate is only of real interest at the point at which the money is drawn down. The rural development plan has been drawn up on the level of the euro, and so it is at that level that modulation, for instance, occurs.

[57] Gwn nad wyf wedi egluro hynny'n glir iawn, felly gofynnaf i Rory O'Sullivan geisio egluro'n well.

I know that I have not explained that very clearly, so I will ask Rory O'Sullivan to have a go at doing a better job.

[58] **Rhodri Glyn Thomas:** **Rhodri Glyn Thomas:** [*Inaudible.*]
[*Anghlywadwy.*]

[59] **Elin Jones:** Bydd sawl agwedd ar y sefyllfa ariannol bresennol o fudd i ffermwyr. Mae'r taliadau sengl yn enghraifft amlwg gyda'r gyfradd gyfnewid, ac mae'r cyfle i allforio hefyd yn gyfle positif, yn enwedig i ffermwyr mynydd sydd ag ŵyn bach i'w gwerthu.

Elin Jones: Many aspects of the current financial situation will benefit some farmers. Single farm payments are an obvious example given the exchange rate, and exporting is also a positive prospect for upland farmers who have light lambs to sell.

[60] **Rory O'Sullivan:** All of the planning, financial management and profiling for the rural development plan is done in euros. At one level, the fluctuation in the exchange rate between the euro and sterling is irrelevant, because all the planning is at European Commission level. We are also operating over a seven-year period. The allocation of EU funding from the commission is set in euros for those seven years, and we have to set out the cumulative spend, the annual spend and the individual scheme spend in euros in such a way as to would draw down the full amount of European funding.

5.00 p.m.

[61] You are right that, for 2008, we have an exchange rate of €0.79 to £1. We are monitoring the situation, but, given that we have a seven-year period in which to operate, we need to see whether that exchange rate will continue for next year and whether we then need to make any adjustment. Under the previous RDP, the exchange rate went the other way and we had to adjust in exactly the same way. We would make that adjustment through a modification, to move moneys around to ensure that we maximise the draw-down of European funding over the seven-year period of the plan.

[62] **Elin Jones:** It is also important to remember that the sterling equivalent of the RDP is around £795 million. Around £600 million of that is Assembly Government money, so the European component is only £195 million.

